Grant Santos
ISA Training
Porth Tredomen
Parc Busnes Tredomen
Ystrad Mynach
Caerffili
CF82 7EH

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

2 Gorffennaf 2021

Annwyl Grant Santos

**Parthed: ISA Training**

**Darparwyr y mae angen iddynt gael eu hadolygu gan Estyn yn dilyn arolygiad craidd**

Ar 28 Mehefin 2021, cadeiriodd Mark Evans AEM gynhadledd wella adolygu gan Estyn ar gyfer ISA Training.

Diben y gynhadledd wella oedd adolygu'r cynnydd y mae ISA Training wedi ei wneud wrth fynd i'r afael â'r argymhellion a nodwyd gan yr arolygiad craidd. Canolbwyntiodd y gynhadledd ar effaith y strategaethau, y cynlluniau a'r camau gweithredu i fynd i'r afael â diffygion a nodwyd yn yr argymhellion.

Yn ystod y gynhadledd, dangosodd y darparwr eu bod wedi ymrwymo'n glir i fynd i'r afael â'r materion a godwyd yn yr arolygiad craidd, a'u bod wedi gwneud cynnydd digonol o ran y meysydd allweddol i weithredu arnynt. Yn bwysig, mae ISA Training wedi cryfhau ei arferion sicrhau ansawdd ymhellach.

Gan ystyried pob un o'r uchod, rydym yn barnu bod ISA Training wedi gwneud cynnydd digonol wrth fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad craidd. Byddwn yn nawr yn tynnu enw'r darparwr oddi ar y rhestr o ddarparwyr y mae angen iddynt gael eu hadolygu gan Estyn.

Yn gywir

**Jackie Gapper**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol

cc: Llywodraeth Cymru